
Hanesion Cynhyrchwyr: **Chino Henriques**

Apicoop, Chile, Mêl



# Chino Henriques



"Mae mêl wedi'i weddnewid yn arian. Mae pob drws ar adeiladau Apicoop yn newydd sbon, ac yn costio $20,000.  Maen nhw'n helpu i gadw'r pryfed allan, yn enwedig y gwyfod sy'n gallu niweidio'r diliau mêl pan mae'n cael ei gadw. Mae tynnwr mêl dyflwydd oed newydd yn lle'r hen beiriant a oedd yma am dros 20 mlynedd. Mae'n gwneud 50% yn fwy mewn hanner yr amser.

"Rydyn ni'n gobeithio adeiladu ystafell gynhesu. Mae'r mêl yn y rhan fwyaf o'r drymiau'n crisialu ar ôl mis Mai ac yn anodd ei gymysgu. Rydym yn cael y mêl yn hylif unwaith eto drwy eu gosod mewn dŵr am 24 awr. Mae ar ein rhestr o ddymuniadau, moderneiddio'r cynhesydd mêl.

**"Hyd at 2005, doedd mêl ddim yn cael premiwm Masnach Deg felly roedd yn rhaid i ni wneud popeth â'n henillion ein hunain. Roedden ni'n cymryd balchder ein bod yn gallu ennill a gwneud hynny gyda'n harian ni'n hunain."**






"Nid prosiect gwenyn yn unig yw hwn, mae'n lle mae pobol yn cael eu haddysgu. Maen nhw'n ymrwymo i'w cwmni cydweithredol eu hunain. Gyda'i gilydd mae gennym ni wenynwyr ar hyd o 1200 cilometr, o'r gogledd i'r de. Mae gennym ni 133 o aelodau ond o'r rhain mae pedwar yn gwmnïau cydweithredol eu hunain. Felly, er bod ganddyn nhw un bleidlais yn y system, mae ganddyn nhw aelodau eraill felly mae gennym ni 300 i 400 cant o bobl yn cymryd rhan."




**"Ni yw'r gwenynwyr mwyaf yn y wlad gyda thros 40,000 o gychod."**

Lluniau: Traidcraft/
Richard Else
Mae Apicoop yn cyflenwi
mêl i Traidcraft.
Gwybodaeth o
gyfweliadau
Medi 06-08

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Chino Henriques**

Apicoop, Chile, Mêl



## Ac yn awr llus...

“Hyd yn oed cyn i’r llus gael eu plannu ar y cae cyffredin, roedd y cwmni cydweithredol eisoes wedi buddsoddi llawer o amser ac arian mewn datblygu’r prosiect.

“[Yn 2005] daeth cyfle i ni brynu 21 hectar o dir gyda’r bwriad o ddargyfeirio. Roedd yn dir garw pan gafodd ei brynu. Mi gymerodd hi bedwar mis i ni glirio’r lle. I dorri cylchoedd y pryfed byddwn yn tyfu gwenith yno. Bydd yn cael ei gynaeafu fis Mawrth ac yna byddwn yn plannu’n llus.“



**“Rwy’n wirioneddol obeithio y gallwn ni greu’r un ysbryd o fasnach deg yn yr iard lus”.**



“Cafodd y ffynnon ei chloddio fis Mehefin 2006. Mae’n ddŵr o ansawdd hyfryd. Mae dŵr o’r ansawdd yma’n dod yn syth o’r Fam Ddaear. Mae hwn yn fuddsoddiad enfawr. Mae’r cae’n lân ac yn y gaeaf, pan fydd yr holl lwyni wedi’u plannu, bydd yn werth 10 waith y pris.

Rydyn ni wedi llogi tri pherson i osod y polion i ddal y rhwyll a fydd yn creu golau a chysgod ac yn amddiffyn y planhigion rhag yr haul.

“Mae canran o arian premiwm Masnach Deg yn cael ei ddefnyddio i dalu am brynu’r tir. Rydyn ni’n mynd i’w rannu’n dair neu bedair llain ar gyfer gwahanol rywogaethau o lus fel y bydd gennym gnydau cynnar, canolig a hwyr er mwyn cadw i weithio drwy’r tymor llawn. Ar gyfartaledd, fe ddylem fod â thua 15 o bobl yn gweithio ar bob hectar. Merched fydd y rhan fwyaf o’r gweithwyr.”



## Hanesion Cynhyrchwyr: **Juan and Marina Inostroza**

Apicoop, Chile, Mêl



# Juan and Marina Inostroza



Mae'r prosiect llus wedi helpu gwenynwyr Apicoop, Juan a Marina Inostroza i ddatblygu'u busnes ffrwythau aeron, gan mai yn eu meithrinfeydd y cafodd yr holl blanhigion llus eu tyfu. Yn 2005 roedd gan y cwpl dri thwnnel poli ac roedden nhw'n cyflogi pum aelod o staff - erbyn hyn mae gan hyd at 15 o bobl waith llawn amser yn gofalu am 13 o dwneli poli. Erbyn hyn mae Juan a Marina yn prynu cae cyfagos i dyfu'u llwyni llus eu hunain.



Meddai Marina: "Mae'n bwysig iawn i ni fod Apicoop wedi penderfynu prynu planhigion o'n meithrinfa oherwydd mae'r arian sy'n cael ei gynhyrchu wedi golygu ein bod wedi gallu cynyddu cwmni'r teulu. Cafodd y cyfan a oedd gennym i'w werthu eleni ei brynu gan Apicoop. Mae rhwng 10 a 15 o bobl yn gweithio yma i ni'n llawn amser. Mae ganddyn nhw gytundeb i weithio. Erbyn hyn mae gennym ni ragor o dai gwydr ac mae llawer mwy o waith llaw. Diferion bach iawn, iawn y ma chwistrellwyr y tai gwydr yn ei gynhyrchu. Gallai diferion mwy ddifetha'r planhigion.

[Hefyd] rydyn ni'n cadw mwy o wenyn. Erbyn hyn mae gennym 500. Ar ddiwedd y tymor fe hoffem gael 800.

"Buaswn yn falch o weld fy mhlant yn datblygu 100% ac yn fodlon fel pobl yn gwneud yr hyn y maen nhw'n ei garu fwyaf ac, os yn bosibl, bod un ohonyn nhw'n parhau gyda'r math o waith rydyn ni wedi bod yn ei wneud ar ein fferm. Ond, mae i fyny iddyn nhw'n bennaf. Rwy eisiau iddyn nhw dyfu yn iach ac yn hapus."

**"Mae ein cwmni cydweithredol wedi dod yn gonglfaen i ni, fel cadwyr gwenyn yn ogystal â gyda'r llus. Mae wedi'n cefnogi i dyfu a gwerthu'n cynnyrch. O safbwynt cymdeithasol, mae'r cwmni cydweithredol yn debyg i ffrind agos, mae bron iawn yn deulu."**



Hanesion Cynhyrchwyr: **Jonathan and Rich- ard**

Apicoop, Chile, Mêl



# Jonathan and Richard Inostroza



Mae Jonathan a Richard yn dilyn ôl traed eu rhieni wrth gadw gwenyn. Cychod gwenyn oedd eu hanrheg pen-blwydd 10 oed ac maen nhw'n mwynhau edrych ar eu hôl. Mae'r efeilliaid yn mynychu Escuela Rural Choroico, sydd o fewn taith gerdded o'u cartref. Mae 160 o fyfyrwyr yn yr ysgol o oedran meithrin hyd at Radd 8. Mae Jonathan a Richard mewn dosbarth o 19 o ddisgyblion.



**"Ar ôl gorffen yn yr ysgol mi hoffwn hefyd fynd i'r brifysgol a dod yn debyg i'm tad a hyd yn oed yn well." Richard**




Meddai Jonathan: "Rhoddodd fy nhad gychod i mi felly mi ddechreuais gadw gwenyn. Mae'n rhaid i chi warchod y gwenyn rhag yr oerni a rhag newyn. Rhaid i ni hefyd eu gwarchod rhag gwiddon oherwydd bod rhai gwiddon yn gallu eu lladd."

Meddai Richard: "Cefais innau fy nghychod gwenyn hefyd oddi wrth fy nhad er mwyn i mi ofalu amdanyn nhw, eu bwydo a'u gwarchod. Mae'n rhaid i chi warchod y gwenyn rhag newyn ac oerfel a rhag gwiddon a phryfed fel gwenyn meirch melyn. Mae'n rhaid i chi ofalu amdanyn nhw'n garedig ac mae'n rhaid i chi ymddiried ynddyn nhw."



**"Ar ôl gorffen yn yr ysgol mi hoffwn fynd i'r brifysgol a dod yn agronomegwr." Jonathan**

Apicoop, Chile, Mêl



# Guido Guenupan and Sonia Chicao



Mae Guido a Sonia'n cadw gwenyn. Mae'r teulu'n byw yn Caunahue, cymuned fechan ger Paillaco, ble mae pencadlys Apicoop. Mae tua 20 o bobl yn cadw gwenyn yn lleol – dechreuodd tua 10 yn 2006 – ac mae chwech ohonyn nhw'n aelodau o Apicoop. Prynodd y cwpl dryc gyda benthyciad gan Apicoop, er nad oedd yr un o'r ddau'n gallu gyrru.

## Guido

"Rydyn ni'n prynu'r tryc ond does yr un ohonom ni'n gyrru felly rydym wedi talu i'n mab, Guido, gael gwersi gyrru.  Fe fydd y gyrrwr i'r teulu. Mae'n bwysig iawn cael cludiant. Roedd yn rhaid i ni ddefnyddio ychen i symud ein cychod a'r gwenyn ac roedd yn rhaid i ni ddisgwyl tan y prynhawn neu ar ôl iddi dywyllu rhag i'r gwenyn ein pigo.

**"Mae popeth rydych yn ei weld yma wedi'i ennill gan y gwenyn. Roeddwn i arfer bod yn weithiwr tymhorol yn y goedwig ond yn y diwedd doeddwn i ddim yn ennill dim. Drwy gadw gwenyn mae gennym ni ddigon o arian i roi addysg i'n plant."**



"Heb os, byddwn yn gallu cadw ein gwenyn yn wy effeithiol unwaith y bydd gennym ni gludiant. Weithiau, pan fydd yn bwrw glaw yma, gallwn ddarganfod y diwrnod nesaf fod ein gwenyn wedi heidio a'n bod wedi colli 50%. Erbyn hyn, gallwn fod yno bob tro yn ôl y gofyn. Ni fyddwn yn dibynnu ar neb.

"Mae popeth rydych yn ei weld yma wedi'i ennill gan y gwenyn. Roeddwn i arfer bod yn weithiwr tymhorol yn y goedwig ond yn y diwedd doeddwn i ddim yn ennill dim. Wrth gadw gwenyn mae gennym ddigon o arian i roi addysg i'n plant."


"Mae'r bechgyn eisiau dechrau cadw gwenyn oherwydd ychydig iawn o ddewis arall o waith sydd yma ac mae cadw gwenyn yn gyfle i wneud yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn mynd i'r dinasoedd mawr.

"O'r pump o blant sydd gennym ni, mae'r hynaf, Anibal, yn gweithio yn Santiago ac mae gennym ferch, Daisy sy'n byw yma'n awr, ond mae'i gwr hefyd wedi cael gwaith yn Santiago. Unwaith y byddan nhw'n mynd i'r ddinas fawr mae'n anodd iddyn nhw ddod yn ôl ac arfer gyda'r ffordd wledig o fyw. Dim ond am wyliau y maen nhw'n dod yn ôl. Does gen i ddim amheuaeth fod cadw gwenyn yn benderfyniad da oherwydd mae'n prif incwm erbyn hyn yn seiliedig ar gadw gwenyn. Y gwenyn sy'n gofalu amdanom ni. Rydyn ni'n dibynnu bron iawn 100% ar y gwenyn. Os bydd y tymor yn mynd yn dda, gallwn ddisgwyl pum tunnell o fêl."

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Sonia**

Apicoop, Chile, Mêl





### Sonia

“Roedd yna adegau pan fydden ni’n cyflogi person i fynd â ni at ein gwenyn, 8 cilometr o fan hyn mewn car, byddai’r person yn anghofio amdanon ni a byddai’n rhaid i ni gerdded yr holl ffordd adref.



“Mae’n mab Rodrigo (26) wedi dechrau gweithio gyda ni ac mae’ ganddo 20 o gychod gwenyn. Ddwy flynedd yn ôl buaswn wedi meddwl y byddai’n dda arnon ni gyda 100 o gychod gwenyn, ond heddiw rydym yn gweithio fel teulu ac eisoes mae gennym 100. Erbyn hyn, rydyn ni’n meddwl tybed a allwn ni gael 500 o gychod gwenyn.“Mae gen i chwe hectar o dir gwastad sydd tua 15 cilometr o Paillaco. Rwy eisiau gwneud rhywbeth gyda’r darn yma o dir a fyddai’n help i gynyddu’n hincwm – llus efallai?”

**“Rydyn ni’n ddiolchgar iawn am y cyfle mae marchnad masnach deg wedi’i roi i ni ac mi hoffwn annog pobl i barhau. Mae pob tro maen nhw’n prynu’n mêl yn golygu llawer i ni.”**





### Pe na byddai Apicoop yn bodoli

“Y gorau’r gallen ni ei wneud fyddai gwerthu’n lleol, ond dim ond tua un dunnell y gallen ni ei werthu. Roedd cyfnodau yma pan oedd pobl yn cadw gwenyn ond rhoddodd y cyfan y gorau iddi oherwydd diffyg marchnad. Pe na byddai Apicoop yma i brynu’r mêl, ni fyddai’n gwneud synnwyr i ni weithio fel hyn.

“Tan ychydig o flynyddoedd yn ôl, ychydig iawn oedden ni’n ei wybod am gadw gwenyn. Eleni, hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi colli’r un cwch gwenyn a’n gobaith yw y bydd yn parhau felly – na fyddwn yn colli unrhyw wenyn ac y byddwn yn gallu cynyddu, oherwydd os yw’r gwenyn yn iach, mi fyddwn ninnau hefyd.”